

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun, 6 Gorffennaf 2020 am 7:00p.m trwy gyfrwng Zoom.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Gavin Harris, Menna Jones, Anne Roberts, Dave Snape a Heather Williams.

82. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr Keiran Allsopp-Robson a Jim Bryan.

83. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

84. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2020 yn gywir.*

85. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

86. YMATEB CYNGOR SIR DDINBYCH I COVID-19

Derbyniodd yr aelodau fanylion am ymateb arfaethedig Cyngor Sir Ddinbych i fesurau Covid-19 sy'n ofynnol i sicrhau cadw pellter cymdeithasol diogel. Adroddodd y Cadeirydd fod yr awdurdod lleol wedi derbyn cyllid o £900k ar gyfer mesurau i wella diogelch, caniatáu pellter cymdeithasol diogel ac annog teithio egniol ar draws y sir. Byddai'r mesurau a gyflwynir y neu lle dros dro am gyfnod o 12 i 18 mis. Y bwriad yn Rhuthun yw cyflwyno system draffig un ffordd gyda cherbydau'n teithio i fyny Stryd y Ffynnon ac i lawr Stryd y Farchnad, gyda lôn feics ddynodedig ar Stryd y Farchnad. Byddai bolardiau dros dro'n cael eu defnyddio i ddynodi'r palmentydd lletach, gyda phlanwyr rhyngddynt. Gall Cyngor Sir Ddinbych ddarparu'r planwyr a'r planhigion ond nid oes ganddo'r capasiti i ddyfrio a chynnal a chadw'r planhigion. Awgrymodd yr aelodau blanhigion hawdd eu cynnal, na fyddai angen llawer o ddŵr ac a fyddia'n creu arogl. Awgrymwyd y posibilrwydd o gynllun noddi gan eiddo cyfagos a chael pobl ifanc i fod yng ngofal cynnal y planwyr.

PENDERFYNWYD: *derbyn a chefnogi'r cynlluniau arfaethedig, a gofyn i gontractiwr dyfrio planhigion y Cyngor Tref am bris ar gyfer dyfrio'r planwyr unwaith y bo union nifer y planwyr yn hysbys.*

87. PLANWYR

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y planwyr yng Nghae Ddôl. Derbyniwyd awgrym i ddefnyddio'r planwyr ar gyfer prosiect 'Incredible Edible' yn Rhuthun.

PENDERFYNWYD: *rhannu neges e-bost yn cynnwys rhagor o fanylion ac ystyried y cynnig ymhellach.*

88. GRANTIAU PLANNU COED LLYWODRAETH CYMRU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried sut y gallai Cyngor Tref Rhuthun elwa o'r grantiau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru'n ddiweddar. Roedd yr aelodau'n awyddus i fanteisio ar y grantiau a datblygu cynllun wedi'i gydlynu gyda'r gymuned.

PENDERFYNWYD: *ystyried y posibiladau'n fanylach a thrafod hyn yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Amwynderau.*

89. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 6 Ebrill 2020 am 7pm.*